**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**

**Cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf**

**Noddwyd gan Siân Gwenllian AS**
**10 Mehefin 2021**
**Zoom, 11:30 – 12:30**

***Yn bresennol:***
*Sian Gwenllian AS*
*Heledd Fychan AS*
*Joyce Watson AS*
*Sioned Williams AS*
*Yr Athro Laura McAllister, Canolfan Llywodraethiant Cymru*
*Catherine Fookes, WEN Cymru*
*Jessica Laimann, WEN Cymru*
*Megan Thomas, Anabledd Cymru*
*Natasha Davies, Chwarae Teg*
*Hade Turkmen, Chwarae Teg*
*Ele Hicks - Diverse Cymru*
*Lenaine Foster-Bennett, EYST*
*Mutale Merrill - Bawso*
*Tina Reece, Cymorth i Fenywod Cymru.*
*Debbie Shaffer, FTWW*
*Patience Bentu, Race Council Cymru*
*Jess Blair, ERS Cymru*
*Nia Thomas, ERS Cymru*
*Eleri Williams, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol*
*Leigh Ingham, Plan International UK*
*Rachel Minto, Canolfan Llywodraethiant Cymru*
*Jackie Jones, Menywod yn Ewrop (Cymru)*
*San Leonard, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru*
*Rayner Rees – Soroptimydd*
*Naomi Williams, Positif*

***Ymddiheuriadau:***
*Jane Dodds AS*
*Mike Hedges AS*
*Elin Jones AS*
*Sarah Murphy AS*
*Carolyn Thomas AS*
*Cerys Furlong, Chwarae Teg*
*Sara Kirkpatrick, Cymorth i Fenywod Cymru*
*Davinia-Louise Green, Stonewall Cymru*
*Eleri Cubbage, Menywod yn Ewrop (Cymru)*
*Diana Stirbu, Prifysgol Fetropolitan Llundain*
*Melissa Wood, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*
*Abi Thomas, Plaid Cymru (Etholaeth Caerfyrddin a Sir Benfro)*
*Nancy Cavill, Swyddfa Julie Morgan AS*

| | |
|---|---|
| 1 | Croeso, Ymddiheuriadau - *WEN Cymru* |
| 2 | **Ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd**<br><br>*Penodwyd Sian Gwenllian yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol.* |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | *Penodwyd WEN Cymru i fod yn gyfrifol am y gwaith ysgrifenyddol* |
| 3 | **Cyflwyniad i'r Grŵp Trawsbleidiol ar  Ferched**<br><br>Dywedodd Sian Gwenllian AS fod cyfarfod olaf y Grŵp Trawsbleidiol yn y Pumed Senedd wedi penderfynu mai'r prif faterion y dylid eu trafod yn dilyn etholiadau'r Chweched Senedd oedd dulliau o sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Senedd ac ym myd Llywodraeth Leol. Awgrymodd y dylai gwaith y Grŵp Trawsbleidiol newydd  ganolbwyntio i ddechrau ar y camau y mae angen eu cymryd i sicrhau amrywiaeth o ran rhywedd ymhlith y rhai sy'n ein cynrychioli yn y Senedd ac ym myd Llywodraeth Leol. Fel rhan o'r broses diwygio etholiadol, roedd yn rhaid i'r broses o gynyddu maint y Senedd fynd law yn llaw â chwotâu sy'n rhwymo'n gyfreithiol i sicrhau cynnydd ystyrlon mewn cynrychiolaeth amrywiol. Roedd hefyd yn bwysig edrych ar gynrychiolaeth gyfrannol a systemau pleidleisio gwahanol fel y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy Sengl. Gellid ehangu ffocws y Grŵp Trawsbleidiol ac ystyried materion eraill wrth i'r gwaith ar gynrychiolaeth gyfartal ac amrywiol fynd rhagddo.<br><br>Yn ôl Jess Blair, byddai angen i ddeddfwriaeth fod ar waith erbyn diwedd y flwyddyn nesaf (2022) er mwyn gweld newidiadau yn etholiadau 2026. Er bod amserlenni'n dynn, meddai'r Athro Laura McAllister,  roedd llawer o waith hanfodol wedi'i gwblhau eisoes gan y Pwyllgor Diwygio Etholiadol a'r Panel Arbenigol.<br><br>Pwysleisiwyd pwysigrwydd sefydlu systemau priodol ac amserol, fel y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig, rhannu swyddi, presenoldeb hybrid mewn cyfarfodydd, ac adolygiad o gynlluniau mentora.<br><br>Pwysleisiodd Jackie Jones bwysigrwydd mabwysiadu dull cyfannol a oedd hefyd yn hyrwyddo'r gwaith ehangach o ddiogelu hawliau merched mewn tirwedd ryngwladol sy'n newid ee drwy gyrff fel CEDAW. |
| 4 | **Diben y Grŵp Trawsbleidiol ar Ferched - Cadeirydd**<br><br>Yng ngoleuni'r drafodaeth flaenorol, cytunwyd ar y diben deublyg a ganlyn:<br><br>a) Cynyddu amrywiaeth a maint y Senedd ac amrywiaeth ym myd llywodraeth leol drwy bwyso am ddiwygio etholiadol a chwotâu, trefniadau gweithio hyblyg a systemau cymorth cadarn<br>b) Hyrwyddo dulliau cryfach o ddiogelu hawliau merched |
| 5 | **Camau i'w cymryd –** Catherine Fookes,<br><br>Dywedodd Catherine Fookes fod profiad yn dangos na fydd unrhyw newid ystyrlon |

| | |
|---|---|
| | heb gwotâu sy'n rhwymo'n gyfreithiol. Roedd y mater yn rhy bwysig i'w adael fel ymrwymiad gwirfoddol y byddai rhai pleidiau'n ei fabwysiadu, ond nid eraill. Drwy gyflwyno cwotâu deddfwriaethol, gallai Cymru arwain y ffordd ac arloesi wrth ddangos i weddill y DU sut y gellir defnyddio cwotâu, fel y gwnaeth wrth gyflwyno Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Camau i'w cymryd<br>- Ysgrifennu at Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yn egluro blaenoriaethau'r Grŵp Trawsbleidiol ac yn tanlinellu'r angen i gyflwyno cwotâu - Cadeirydd / WEN Cymru<br>- Pwyso am ymchwiliad pwyllgor i gwotâu unwaith y bydd portffolios y pwyllgorau wedi'u cadarnhau<br>- Cael diweddariad gan Laura McAllister am ymchwil modelu<br>- Tynnu sylw at waith ymgyrch Diverse 5050<br>- Casglu a chyhoeddi ymchwil ar gwotâu amrywiaeth a ddefnyddir mewn gwledydd eraill<br>- Clywed gan wledydd a siaradwyr eraill am eu profiad o ddefnyddio cwotâu sy'n rhwymo'n gyfreithiol ac arfer gorau o ran cynlluniau mentora<br>- Ymchwilio a gwahodd siaradwyr i drafod sefyllfa'r gwledydd hynny sydd wedi defnyddio cwotâu rhywedd sy'n rhwymo'n gyfreithiol, ee Iwerddon - WEN Cymru |
| 6 | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru) - Jackie Jones**<br><br>Pwysleisiodd Jackie Jones bwysigrwydd defnyddio llais Cymru mewn perthynas â CEDAW a Lobi Menywod yn Ewrop. Dywedodd fod yr UE ar hyn o bryd yn ystyried gwneud trais ar sail rhywedd yn drosedd ac awgrymodd y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol bwyso i gadarnhau confensiwn Istanbwl mewn cyfraith ddomestig.<br><br>Roedd CEDAW wedi cael sylw ym maniffesto tair plaid ac roedd yn bwysig parhau i lobïo yn y cyswllt hwn ar ôl yr etholiad.<br><br>Byddai Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol yn penodi Rapporteur Arbennig newydd ar drais yn erbyn menywod yr haf hwn.<br><br>Cynhaliodd Lobi Menywod yn Ewrop ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr wythnos diwethaf gan ganolbwyntio ar effaith Covid 19 a dod â thrais yn erbyn menywod i ben. |
| gw7 | *Cloi* |